Newyddion Ysgol Cwm y Glo

Rhagfyr 21, 2007

Rhifyn 15

Talebau Tesco

Diolch i bawb am gasglu Talebau Tesco unwaith eto. Casglwyd 4,439 ac rydym wedi archebu offer chwaraeon.

Yr Urdd

Cafwyd sesiynau diddorol yn yr Urdd y tymor yma. Diolchwn yn fawr i Anti Cheryl a Mai am ddod i gynnal sesiwn ar ddiogelwch y ffordd. Roedd yr aelodau wrth eu bodd yn mynd adre yn y siacedi melyn. Diolchwn hefyd i Mel Fôn am ddod a'r cyfrifiadur dreifio car i sesiwn arall. Yn olaf, diolchwn i Mrs Pat Jones am ddod i wneud gwaith llaw gyda'r aelodau. Rydym yn falch iawn hefyd o Rebecca Wilson, Eva Perrin a Daniel Land am nofio'n dda yng Ngala Nofio'r Urdd.

Addysg Gorfforol

Yn y Ganolfan Hamdden — Blwyddyn 5 a 6 oedd yn cael gwersi tenis, Blwyddyn 3 a 4 yn cael gwersi gymnasteg a Blwyddyn 2 yn cael gwersi nofio. Buom yn gwella sgiliau pel droed yn y sesiynau Campau'r Ddraig.

Mathemateg

Daeth Syrcas Trafeilio Mathworks i'r ysgol i gynnal Gweithdai Mathemateg gyda holl ddisgyblion yr Adran Iau. Roedd y gwahanol weithgareddau yn ddiddorol yn ogystal a bod yn addysgiadol.

Gwyddoniaeth

Diolch i Techniquest, Llanberis am gynnal dau weithdy diddorol, un ar adeiladu pontydd a'r llall ar drydan.

Plant Mewn Angen

Casglwyd £116 ar ddiwrnod Plant Mewn Angen drwy wisgo pyjamas neu wisg ffansi, a gwerthu teisennau a theganau. Diolch i'r Cyngor Ysgol a Bl. 6 am drefnu'r diwrnod.

Ymgyrch Plentyn y Nadolig

Casglwyd 40 o focsys i'w gyrru i ffwrdd—ardderchog wir.

India

Mae dosbarth Llydaw wedi cychwyn cysylltiad gyda ysgol yn India drwy Menter Fachwen. Bu criw yn siarad amdano ar y BBC.

Diolchiadau

Diolch i Mr. Townsend am ddod i'r ysgol ar fore Mawrth i gynnal gwasanaeth ac am annerch y plant yn ein gwasanaeth Diolchgarwch yn y capel.

Ymweliadau

Cafodd Ddosbarth Marchlyn a Dosbarth Llydaw fynd ar ymweliad i Cae'r Gors, cartref Kate Roberts yn Rhosgadfan. Aeth dosbarth Marchlyn i weld Theatr Arad Goch yn perfformio sioe *Mil O Eiriau* . Cafodd yr ysgol i gyd fynd i'r Galeri i weld y pantomeim *Pws Mewn Bwts* ac roeddynt i gyd wedi mwynhau yn arw. Bu Blwyddyn 6 am y diwrnod yn Ysgol Brynrefail i gael blas ar fywyd yn yr ysgol uwchradd.

Ffarwel

Rydym yn dweud ffarwel wrth Anti Llinos ar ddiwedd y tymor yma. Mae hi wedi bod yn ysgrifenyddes yn yr ysgol ers dros dair mlynedd bellach ac rydym yn mynd i'w cholli. Diolch am bob dim Anti Llinos.

CRA

Mae'r CRA wedi bod yn brysur unwaith eto y tymor yma. Cynhaliwyd Ffair Hwyl yr Hydref ac roeddym yn ffodus o gael tywydd braf. Aeth nifer o rieni a phlant i bacio bagiau yn Morrisons ar Ddydd Sadwrn yn Nhachwedd a chasglwyd dros £700! Ar ddiwedd y tymor trefnwyd i gynnal raffl am hamperi bendigedig. Diolch i bawb sy'n cyfrannu ac yn rhoi eu hamser er lles y plant.

Gweithgareddau'r Nadolig

Daeth gwmni bypedau Saint y Gymuned i ddiddori'r plant gyda'r sioe *Nid Noson Arall Oedd Hon!* Cafodd gôr o ddisgyblion eu ffilmio yn canu carol er mwyn ei dangos ar sgrin fawr yng Nghaernarfon ar 21/22/23/ o Ragfyr am 10am. Bu holl blant yr ysgol yn cymryd rhan yn y cyngerdd nadolig yng Nghapel Tabernacl. *Y Goeden Nadolig* oedd y them eleni ac fe wnaeth pob un ddysgu eu gwaith yn arbennig—da iawn chi blant. Diolchwn i Anti Janet, Anti Christine ac Anti Margaret am y cinio nadolig bendigedig. Diolchwn hefyd i Santa am droi i mewn ar amser prysur gyda anrheg i bawb yn ystod y parti nadolig.

Nadolig Llawen i Bawb

Bydd yr ysgol yn ail agor ar Ddydd Mawrth, Ionawr 8, 2008.

Ysgol Cwm y Glo Newsletter

December 21, 2007

Issue 15

Tesco Tokens

Thank you to everyone who collected Tesco Tokens this term. We collected 4,439 and we have ordered sports equipment.

Yr Urdd

We had some interesting sessions in the Urdd this term. Thank you to Auntie Cheryl and Mai for holding a session on Road Safety—the children were very happy to receive the bright yellow jackets. Thanks also to Mei Fôn who brought a driving simulator with him. Finally thank you Mrs Pat Jones for making Christmas crafts with the members. We are also glad to report that Rebecca Wilson, Eva Perrin and Daniel Land performed very well in the Urdd Swimming Competition at Bangor Baths.

Physical Education

Years 5 and 6 had tennis lessons this term, while Years 3 and 4 had gymnastic lessons. Year 2 had swimming lessons. Children who stayed for Dragon Sports worked on their soccer skills.

Mathematics

The Magic Mathworks Travelling Circus held a Maths Workshop with the Juniors. The different activities were fun as well as being educational.

Science

We must thank Techniquest, Llanberis for holding two workshops this term, one on bridge building and one on electricitry.

Children in Need

£116 was collected for Children in Need by wearing pyjamas and fancy dress to school, as well as selling toys and cakes. Thank you to the School Council and Year 6 for arranging the day.

Operation Christmas Child

40 boxes were collected and sent off—excellent!

India

Llydaw class have established a link with a school in India through Menter Fachwen. A number of children spoke about it on the BBC.

Thank you

Thank you to Mr Townsend for coming to school on Tuesday mornings to hold a service, and also for coming to address the children during our Thanksgiving Service.

Visits

Marchlyn and Llydaw classes visited Cae'r Gors in Rhosgadfan, the home of author Kate Roberts. Marchlyn class also went to see a performance of *A Thousand Words* by Arad Goch Theatre Company. The whole school went to the Galeri in Caernarfon to see the pantomime *Puss In Boots* which they thoroughly enjoyed. Year 6 visited Brynrefail school for the day to sample life in the secondary school.

Goodbye

We say Goodbye to Auntie Llinos at the end of this term. She has been our school secretary for over three years and we will miss her. Thank you for everything Auntie Llinos.

PTA

The PTA have been busy once again this term. An October Fair was held and we were fortunate to have fine weather for it. Parents and children went to pack shopping at Morrisons on a Saturday in November and raised over £700! A raffle of lovely hampers was arranged for the end of term. Thank you to everyone who contributes and gives their time for the children's sake.

Christmas Activities

The Community Saints Puppet Company came to entertain the children with their show *This Was Not An Ordinary Night!* The choir were filmed singing a carol to be displayed on a big screen in Caernarfon on December 21/22/23 at 10am. The whole school took part in the Christmas Concert at Tabernacl Chapel. The theme this year was *The Christmas Tree* and all the pupils performed really well—well done children. We thank Auntie Janet, Auntie Christine and Auntie Margaret for a wonderful christmas dinner. We also thank Santa for finding time to visit the christmas party with a gift for each child at such a busy time of year.

Happy Christmas

The school will re-open on Tuesday, January 8, 2008.